



# Datblygu Ymateb Cymdogaethau i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: Adroddiad ar y prosiect mentora ymchwil cymdogaethau Awst 2023-Mehefin 2024







Y Tîm ymchwil: Mike Barcay, Ben Tawil, Wendy Russell, Donna Gaywood, Emily Ryall a dau aelod o staff digonolrwydd cyfleoedd chwarae o'r ddau awdurdod lleol a gymerodd ran a'r llall

LUDICOLOGY

PRIFYSGOL SWYDD GAERLOYW

Chwarae Cymru Play Wales

# Datblygu Ymateb Cymdogaethau i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae: Adroddiad ar y prosiect mentora ymchwil cymdogaethau Awst 2023-Mehefin 2024

### Pwyntiau allweddol:

- Cynhaliodd y prosiect, a ariannwyd gan Brifysgol Swydd Gaerloyw raglen beilot ar gyfer pecyn mentora i gefnogi staff mewn dau awdurdod lleol yng Nghymru i gynnal ymchwil ar lefel cymdogaethau i gyfleoedd i blant chwarae ac i lunio cynlluniau gweithredu o'r ymchwil hwnnw, fel rhan o'u rôl yn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
- Cyflwynwyd y pecyn mentora llawn yn llwyddiannus yn y naill awdurdod lleol a'r llall. Gweithiodd yn dda iawn, yn bennaf oherwydd arbenigedd ac ymatebolrwydd y mentoriaid a chyfranogwyr yr awdurdodau lleol fel ei gilydd, a'r adnoddau a rannwyd.
- Roedd y materion allweddol a gododd yn ystod y trafodaethau wedi'u halinio â'r offer cysyniadol a ddatblygwyd mewn astudiaethau ymchwil blaenorol ar y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sef
    - cyd-ddoethineb (cydnabod gwahanol ffyrdd o gael gwybod am fannau lleol gan blant, preswylwyr, ymgyrchwyr a phobl broffesiynol),
    - cyfiawnder/anghyfiawnder gofodol (mynediad cyfyngedig gan blant i dir ar gyfer chwarae), ac
    - cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd (datblygu ffyrdd dilys a moesegol o roi cyfrif am y defnydd o fannau agored ac ymatebion i anghyfiawnderau).
- Mae'r prosiect wedi cynnal trafodaethau ar nifer o faterion gan gynnwys staff awdurdodau lleol fel ymchwilwyr, cymhlethdod ymchwil yn y byd go iawn a gweithio gyda chymunedau, a myfyrio'n ddwfn ar foeseg ymchwil deinamig mewn cyd-destun awdurdodau lleol.

## Cefndir a chyd-destun yr astudiaeth

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 Llywodraeth Cymru yn cynnwys dyletswydd statudol i awdurdodau lleol asesu a darparu cyfleoedd chwarae digonol i blant. Mae gofyn i awdurdodau lleol baratoi a chyflwyno Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (gan gynnwys cynlluniau gweithredu) bob tair blynedd i Lywodraeth Cymru a diweddaru'r cynlluniau gweithredu hynny bob blwyddyn. Mae disgwyl i'r asesiadau digonolrwydd cyfleoedd chwarae llawn nesaf gan awdurdodau lleol gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2025.

Comisiynwyd pedair astudiaeth ymchwil ar y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gan Chwarae Cymru a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru (Lester a Russell, 2013, 2014; Russell, Barclay, Tawil a Derry, 2019, 2020). Datblygodd yr astudiaethau hyn fframwaith cysyniadol ac ymarferol penodol ar gyfer polisi ac ymarfer. Mae'r egwyddor sylfaenol yn gweld y ddyletswydd fel un sy'n rhoi sylw i'r amodau sy'n cefnogi gallu plant i ganfod amser a mannau i chwarae, nid yn unig ar adegau ac mewn mannau pwrpasol ar gyfer chwarae, ond hefyd yn nhir y cyhoedd. Gwelir yr amodau hyn fel mater o **gyfiawnder gofodol,** hynny yw, mynediad teg a chyfiawn at yr hyn sydd gan fannau cyhoeddus i'w gynnig a chymryd rhan yn hynny, sy'n cynnwys rhyddid bob dydd plant i symud o gwmpas eu cymdogaethau a chwarae neu gwrdd â ffrindiau. Mae'r Ddyletswydd felly'n dod yn broses o '**cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd'**: drwy ddatblygu cofnodion amrywiol o sut y gall plant ddefnyddio mannau cyhoeddus a sut y maent yn eu defnyddio ac

ymateb i'r cofnodion hynny mewn ffyrdd sy'n cynnal a gwella gallu plant i chwarae yn yr awyr agored.

Mae aelodau'r tîm ymchwil (Russell, Barclay a Tawil) wedi cwblhau arolwg eang yn ddiweddar o'r ymchwil gyfoes ar astudiaethau plentyndod, polisi cymdeithasol, a manteision chwarae i les plant, patrymau chwarae plant, ac ymyriadau i gefnogi chwarae plant, a gomisiynwyd gan Chwarae Cymru i hysbysu'r Adolygiad Gweinidogol o Chwarae. Mae'r adolygiad yn dangos sut y gellir cysylltu'r dirywiad yn rhyddid bob dydd plant yn uniongyrchol â sut y mae dyluniad, trefniant a chynhyrchiant parhaus mannau cyhoeddus yn blaenoriaethu'r economi dros bobl ac oedolion dros blant. Mae hyn yn amlwg yn y gwaith cynyddol o breifateiddio tir a sut y mae ceir, wrth symud a phan fyddant wedi'u parcio, yn brif nodwedd mewn nifer o strydoedd a chymdogaethau preswyl. Mae plant wedi cael eu tynnu oddi ar y strydoedd ar sail diogelwch. Dros amser, mae llai o blant ac oedolion allan ar y strydoedd, sy'n arwain at y meddylfryd nad lle plant yw bod ar y stryd, sy'n cynyddu ofnau eraill (perygl o du dieithriaid, bwlio, aflonyddu, trais, neu bryderon rhieni ynghylch cael eu hystyried yn esgeulus). Mae'r dirywiad hwn wedi'i gysylltu â'r cynnydd mewn pryderon ynghylch iechyd a lles plant fel gordewdra, diffyg ffitrwydd corfforol ac iechyd meddwl gwael. Mae nifer o bethau wedi cael eu beio am hyn, gan gynnwys technoleg ddigidol, neu 'sgriniau', rhieni sy'n or-amddiffynnol a pherygl o du dieithriaid. Mae'r cysyniad o gyfiawnder gofodol yn caniatáu safbwynt ehangach a mwy cynnil, ac mae'n cydnabod y ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol niferus sy'n cyfrannu at sefydlu man agored nad yw bellach yn croesawu plant.

Mae dull gweithredu o'r fath wedi galluogi ystyriaeth ehangach o bolisïau sy'n effeithio ar blant, gan gynnwys polisïau sy'n ymwneud â chynllunio gofodol, dylunio trefol, tai, priffyrdd a theithio llesol, pensaernïaeth tirwedd, cynllunio ar gyfer mannau gwyrdd a mwy. Mae hefyd yn cefnogi newid o edrych ar ddiffygion plant i'w gweld fel unigolion galluog pan fydd yr amodau'n ffafriol. Yng Nghymru, mae hefyd yn cefnogi gweithio tuag at aliniad ehangach y polisïau hyn â lles plant, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru, sy'n drosfwaol a radical.

Ystyriodd yr astudiaeth ymchwil mwyaf diweddar ar y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Russell *et al.,* 2020) yr amodau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i gymryd camau i gefnogi cyfleoedd plant i chwarae. Mae nifer o'r argymhellion o'r astudiaeth hon wedi'u hadleisio yn adroddiad y Grŵp Llywio ar gyfer yr Adolygiad Gweinidogol ar Chwarae, yn enwedig yr argymhelliad i awdurdodau lleol gynnal gwaith ymchwil moesegol gyda phlant gan ddefnyddio arsylwadau, mapio a dulliau creadigol eraill ar lefel micro-gymdogaethau, ochr yn ochr â'r camau i gefnogi a galluogi awdurdodau lleol i gynnal y gwaith ymchwil hwn a gweithredu arno. Yr ymchwil lleol iawn hwn oedd ffocws yr astudiaeth hon.

## Nod y gwaith ymchwil:

Nod y gwaith ymchwil oedd treialu a gwerthuso pecyn mentora i gefnogi pobl allweddol o fewn ardaloedd awdurdodau lleol i ddatblygu sgiliau a hyder wrth gynnal gwaith ymchwil moesegol lleol iawn gyda phlant ac oedolion, ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar sail y gwaith hwn, gan gefnogi, o ganlyniad, ofynion asesu a diogelu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

## Methodoleg a dulliau:

Roedd y dull yn un cyfranogol, a oedd yn adeiladu ar brofiad blaenorol y tîm ymchwil a'r offer damcaniaethol a ddatblygwyd dros bedair astudiaeth ar Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd

Chwarae Cymru ac mewn gwaith arall gennym, yn enwedig y cysyniadau o gyd-ddoethineb, cyfiawnder gofodol, a phrosesau deuol cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd.

Roedd yr astudiaeth yn cynnwys dwy elfen gydgysylltiedig:

1. Nodwyd dau awdurdod lleol i gymryd rhan yn yr astudiaeth drwy broses o lunio rhestr hir mewn partneriaeth â Chwarae Cymru a'u gwahodd i gymryd rhan. Ym mhob awdurdod, cafodd dau aelod o staff allweddol sy'n gyfrifol am y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae eu mentora drwy'r broses o gynllunio, gweithredu a dadansoddi gwaith ymchwil moesegol lleol iawn gyda phlant ac oedolion gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys arolygon, gweithdai creadigol gyda phlant, grwpiau ffocws ac archwiliadau gofodol. Lluniwyd cynlluniau cysyniad cymdogaethau mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymchwil, a datblygwyd y rhain yn gynlluniau gweithredu a oedd yn cynnwys y rhanddeiliaid allweddol. Gweithredwyd yr elfen hon gan Mike Barclay a Ben Tawil (Ludicology), gan adeiladu ar eu profiad helaeth o gynnal gwaith o'r fath eu hunain.

2. Drwy bedair sesiwn fyfyriol, a hwyluswyd gan Wendy Russell a Donna Gaywood, ynghyd â nifer o gyfarfodydd tîm a chyfathrebu parhaus, cafwyd dull cyfranogol a pharhaus o werthuso'r pecyn mentora.

### Dadansoddi'r data:

Rhoddwyd arweiniad i staff yr awdurdodau lleol ar ddadansoddi eu hymchwil lleol iawn gan Ludicology, ac yna lluniodd hwn sail i gynllun cymdogaethau a chynllun gweithredu cysyniadol. Rhannwyd y data ansoddol yn themâu gan ddefnyddio codio agored ac echelinol a chymariaethau iteraidd ar draws y setiau data, gan gynnwys yr ymatebion meintiol o'r arolygon.

Dadansoddwyd y trawsgrifiadau o'r sesiynau myfyriol a'r cyfarfodydd tîm ar sail themâu drwy broses gydweithredol ar-lein gan ddefnyddio MIRO. O gofio penodoldeb yr ymchwil lleol iawn a'r nifer fach o awdurdodau lleol a gymerodd ran, gwnaed ymdrechion rhagweithiol drwy gydol y dadansoddiad o'r ymchwil lleol a'r sesiynau myfyriol i beidio â chyffredinoli'r data ac i gydnabod hynodrwydd pob cyd-destun.

### Moeseg

Cymeradwywyd y prosiect gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Swydd Gaerloyw. Dilynwyd y protocolau ar gyfer sicrhau cydsyniad gwirfoddol ar sail gwybodaeth ac ar gyfer diogelu data. Rhoddwyd sylw arbennig drwy gydol y prosiect i gymhlethdod penderfyniadau moesegol i staff awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phlant a chymunedau, ac ailymwelir â'r trafodaethau hyn drwy gydol yr adroddiad.

## Gwerthuso'r rhaglen fentora beilot: trosolwg

Teimlai cyfranogwyr y naill awdurdod lleol a'r llall a'r ddau fentor fod y broses fentora wedi gweithio'n dda, ac mae'r holl broses wedi'i gwerthfawrogi'n fawr gan staff yr awdurdodau lleol a gymerodd ran. Priodolwyd llawer o'r llwyddiant i brofiad a statws y mentoriaid, sydd wedi gwneud y math hwn o waith ers cychwyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae dros ddeng mlynedd yn ôl. At hynny, teimlai'r cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol fod y mentoriaid yn gefnogol, eu bod wedi creu man diogel ar gyfer rhoi cynnig ar y prosesau, eu bod ar gael i roi arweiniad y tu allan i amserau'r cyfarfodydd ffurfiol a'u bod yn ymatebol i amodau penodol pob awdurdod.

Nodwyd bod cyfranogwyr yr awdurdodau lleol wedi dod â sgiliau a phrofiad sylweddol o weithio gyda phlant a chymunedau gyda nhw. O gofio hyn, myfyriwyd ychydig ar sut y gellid sicrhau'r defnydd gorau o amser y mentoriaid, a sut y gellid negodi hyn mewn rhaglenni yn y dyfodol yn dibynnu ar bob cyd-destun. Roedd cyfranogwyr yr awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi'r mentora a'r gefnogaeth uniongyrchol yn arbennig mewn perthynas â:

- y cyfnodau cyn cynllunio a chynllunio a oedd yn cyflwyno sail ddamcaniaethol y gwaith, gan gynnwys damcaniaethau ymchwil a meithrin gwybodaeth, a chytuno ar y cynllun gwaith penodol ac wedi'i amseru;
- dewis pa gymdogaethau i weithio gyda nhw;
- cynnal yr archwiliad gofodol; a
- y broses o ddadansoddi data.

Fel y nododd un cyfranogwr:

> A siarad yn blaen - yn y gorffennol, rydym wedi gwneud pethau gyda'r gymuned yn amlwg, ond dydyn ni erioed wedi'u gwneud i'r safon uchel hon o ran sicrhau bod y pethau rydym yn eu cofnodi yn fanwl gywir; mae gennym ganllawiau, maent yn glir, ac nid ydym yn torri corneli. Ac rwy'n credu bod mynd drwy'r broses honno yn ein helpu i aros ar y trywydd cywir a sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn.

Roedd elfen allweddol o'r rhaglen fentora, a arweiniodd at drafodaethau yn y sesiynau myfyriol, yn ymwneud â datblygu sgiliau cyfranogwyr yr awdurdodau lleol fel ymchwilwyr. Trafodir y mater hwn ymhellach isod yn yr adran ar gyfrif-oldeb ac atebol-rwydd.

Roedd llawer o'r gwaith ymchwil yn dibynnu ar eraill, er enghraifft ar ysgolion i ddosbarthu arolygon a threfnu gweithdai i blant, ac ar aelodau'r gymuned i roi cyhoeddusrwydd i'r grwpiau ffocws a digwyddiadau eraill ac i'w mynychu. Er gwaethaf hynny, teimlai'r cyfranogwyr fod yr amserlen yn rhesymol.

Bu pennu amserlen benodol a phrosiect penodol a gefnogwyd yn allanol o gymorth i flaenoriaethu'r amser. Yn y pen draw, gwnaeth yr awdurdodau a gymerodd ran drefnu eu gwaith o gasglu a dadansoddi data i gyd mewn un wythnos. Rhoddodd y prosiect ddigon o amser ymlaen llaw i gynllunio ar gyfer wythnos gyfan heb orfod ymateb i ofynion eraill, ac er bod hyn wedi peri straen, teimlai'r cyfranogwyr bod cael eu trochi yn y broses yn werthfawr a'i fod wedi arbed amser o bosibl yn yr hirdymor. Yn benodol, roedd teimlad ei bod yn bwysig cael bloc o amser i gael eu trochi yn y gwaith dadansoddi data heb ymyriadau eraill, yn ogystal â chael dau unigolyn i weithio ar y gwaith dadansoddi data, gyda'r manteision o rannu syniadau. Er hynny, i un cyfranogwr, roedd realiti gofynion eraill ar ei amser yn golygu nad oedd yn gallu mynychu'r holl ddigwyddiadau, a lleihaodd ei ymwneud â'r prosiect a'r hyn a ddysgwyd ohono gan arwain at leihau manteision cydweithio ar waith ymchwil. Yn gyffredinol, teimlai'r cyfranogwyr fod amserlen 12 mis yn ymarferol, o gofio bod y rhaglen beilot, mewn gwirionedd, wedi ei chynnal am 9 mis wedi i'r gwaith gael ei ddechrau. Gellid defnyddio'r amser ychwanegol cyn y rhaglen i recriwtio pobl leol ar gyfer y grwpiau ffocws a'r gweithdy cynllunio cymdogaethau, yn ogystal â chaniatáu amser rhwng cwblhau'r arolwg a'r grwpiau ffocws (oherwydd gellir defnyddio'r arolygon i recriwtio ar gyfer grwpiau ffocws hefyd). Byddai'r 12 mis llawn hefyd yn caniatáu mwy o amser ar gyfer meithrin cynghreiriau i ddatblygu'r gwaith, drwy grŵp llywio neu drefniant mwy hyblyg ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid neu grwpiau gorchwyl a gorffen.

Yn ogystal â gwaith mentora agos, datblygodd a defnyddiodd y prosiect e-becyn o adnoddau sy'n darparu damcaniaeth sylfaenol, cyflwyniadau PowerPoint, offer ymchwil, canllawiau,

enghreifftiau a thempledi. Rhoddwyd yr e-becyn llawn i gyfranogwyr yr awdurdodau lleol ar ddechrau'r prosiect, yn ystod y cyfarfod cyn gweithredu. I ddechrau, roedd y cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol wedi'u gorlethu gan y pecyn, ond wrth iddynt ddod yn fwy cyfarwydd â'r prosesau, roeddent yn gwerthfawrogi lefel y manylion fwyfwy. Yn ogystal, roeddent yn cydnabod gwerth y broses o addasu rhai o'r adnoddau at eu defnydd eu hunain, oherwydd roedd angen ymgysylltiad a myfyrdod dyfnach ar gyfer hyn. Ar wahân i ychydig o wybodaeth ychwanegol ar gyfer dadansoddi'r data yr oedd y mentoriaid am ei hychwanegu, ni chafodd unrhyw newidiadau eu hargymell i gynnwys yr e-becyn.

Cafwyd ychydig o drafodaeth am bobl yn defnyddio'r adnoddau yn yr e-becyn heb iddynt ymgymryd â'r rhaglen fentora. Roedd datblygwyr yr e-becyn yn glir nad oedd yn becyn cymorth:

> Un o fanteision y ffaith bod y pecyn wedi'i ddylunio ar sail egwyddor a gwerth yw bod y broses ar gyfer unrhyw dîm sydd wrthi'n datblygu'r fframweithiau hynny ar gyfer eu hawdurdod lleol yn rhoi'r cyfle iddynt ddysgu. Nid cydymffurfiaeth mohono, ond datblygiad.

Fodd bynnag, roedd ymdeimlad y dylid ychwanegu rhai mesurau diogelwch at yr e-becyn i weithredu fel ymwadiad ar ffurf troednodyn ar bob tudalen yn amlinellu'r ffaith bod y pecyn wedi'i ddatblygu gan Ludicology fel rhan o astudiaeth a ariannwyd gan Brifysgol Swydd Gaerloyw ac mai'r bwriad yw ei ddefnyddio fel rhan o brosiect mentora.


Mae gweddill yr adroddiad hwn yn defnyddio'r tri offeryn cysyniadol o'r astudiaethau ymchwil ar ddigonoldeb cyfleoedd chwarae i drafod rhai o'r materion mwy cymhleth a gododd yn ystod yr ymchwil ar gymdogaethau yn y ddau awdurdod lleol a gymerodd ran, sef cyd-ddoethineb, tegwch cymdeithasol, a chyfrif-oldeb ac atebol-rwydd.


## Cyd-ddoethineb

Roedd yr ymchwil wedi'i dylunio i ymgysylltu'n fwriadol ag amrywiaeth o ffyrdd o wybod sut y gall amodau bob dydd bywydau plant gyfyngu ar eu gallu i chwarae yn yr awyr agored neu gefnogi hynny. Roedd hyn yn cynnwys y plant eu hunain, preswylwyr ac ymgyrchwyr lleol sy'n oedolion a gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o sectorau gan gynnwys cynllunio, parciau a mannau agored, gwasanaethau teulu a mwy.

### Ymchwilio gyda phlant

Mae ffyrdd plant o wybod am fannau ac amser yn wahanol iawn i rai oedolion. Gwnaeth un elfen o'r ymchwil ymgysylltu â phlant ysgol o Flynyddoedd 5 a 9 (9-10 oed a 13-14 oed yn y drefn



honno) o ysgolion lleol, gan ddefnyddio arolwg ar-lein ac yna ddulliau creadigol gyda grwpiau llai. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd wedi'u mireinio dros amser, gan gydnabod realiti'r cyd-destunau y byddant yn cael eu defnyddio ynddynt, a'r ffaith bod gan staff yr awdurdodau lleol gapasiti cyfyngedig ac felly bod angen i'r dulliau a ddefnyddir fod yn effeithiol ac amserol. Maent yn bwrpasol yn syml yn dechnegol ac wedi'u dylunio ar gyfer hwyluso dulliau effeithiol o gynhyrchu data gan y rhai sydd â llai o brofiad o'r broses, gan weithio o fewn cyfyngiadau amser tynn ac yn aml mewn lleoliadau anghyfarwydd ac ansicr (er enghraifft, ysgolion, canolfannau cymunedol, clybiau ieuenctid) gydag amrywiaeth o ymyriadau posibl a chymhlethdod y byd go iawn. Yn hynny o beth, fe wnaethant weithio'n dda.

Yn y sesiynau grŵp hyn, fe wnaeth y plant siarad am yr hyn yr oeddent yn credu oedd chwarae, mapio lle'r oeddent yn chwarae a datblygu syniadau ynghylch sut i wella'r amodau ar gyfer chwarae. Fel y nododd un cyfranogwr o'r awdurdodau lleol, "Y teimlad a gefais i oedd cadarnhad pendant bod plant yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain." Nid yw bob tro'n hawdd annog a gwrando ar ddoethineb o'r fath gan blant. Roedd y cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol yn brofiadol mewn gweithio gyda phlant ac roeddent yn gyfforddus yn cynnal y sesiynau, gyda'r plant ifanc a'r rhai hŷn, a gwnaethant ymateb yn dda i'r heriau y gwnaeth rhai eu cyflwyno. Roeddent hwy a'r mentoriaid yn teimlo bod y gweithgareddau wedi gweithio'n dda a chawsant ddata cyfoethog i'w dadansoddi. Nododd y cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol hefyd, er eu bod wedi gofyn cwestiynau tebyg i'r plant yn aml yn y gorffennol, yr hyn a oedd yn wahanol o ran y prosiect mentora hwn oedd eu bod wedi'u harwain ar sail dadansoddiad llawn o'r data, gan eu croesgyfeirio yn erbyn ffynonellau a themâu data gwahanol. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod y broses yn flinedig (ar ddiwedd wythnos gyfan o gasglu data) ond yn gyffrous:

> Roedd gwneud y gwaith dadansoddi ar y prynhawn dydd Gwener yn waith caled. Roedd hefyd yn llawer o hwyl. Ymddiried yn y broses i holi a pharhau i ofyn cwestiynau am y data.

> Roeddwn i'n hyderus y byddai pob dim a ddywedwyd yn cael ei gynrychioli drwy'r broses y gwnaethoch ein tywys drwyddi.

### Doethineb pobl leol

Roedd amrywiaeth o oedolion yn rhan o'r gwaith ymchwil mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys preswylwyr lleol, rhieni a gofalwyr, ymgyrchwyr lleol, gwleidyddion lleol (cynghorwyr tref a chymuned, er enghraifft) a gweithwyr proffesiynol. Yn ystod y broses o nodi cymdogaethau ar gyfer ymchwil lleol iawn, anogwyd y cyfranogwyr i nodi'r lleoedd lle yr oedd ymgyrchwyr cymunedol lleol. Roedd hyn o gymorth o ran logisteg y gwaith ymchwil drwy wneud defnydd o rwydweithiau lleol (cysylltiadau ag ysgolion, canolfannau cymunedol a phobl sy'n gallu cynnal a hyrwyddo digwyddiadau), i gasglu eu doethineb am sut yr oedd mannau lleol yn gweithio, i helpu gyda datblygu camau gweithredu a ymddangosodd o'r ymchwil, i ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth dros y materion a'r camau gweithredu, ac i ddatblygu ffordd o weld y gellir ei drosglwyddo i faterion a chymdogaethau eraill. Yn ystod y sesiynau myfyrio cynnar, roedd llawer o drafodaethau ynghylch pwy i'w cynnwys pryd, lle a sut, o gofio natur gwleidyddiaeth gymunedol. Yn un o'r awdurdodau, roedd ymdeimlad y dylid cynnal grŵp ffocws i oedolion ar gyfer y preswylwyr lleol yn unig, heb weithwyr neu weithredwyr proffesiynol lleol, er mwyn darparu man diogel:

> Mae rhai pobl sydd mewn awdurdod y mae'r gymuned yn ymddiried ac yn credu ynddynt, ac yn eu parchu. Felly, rwy'n credu ei bod yr un mor bwysig iddyn nhw gael man lle y gallant gyfleu eu syniadau a theimlo eu bod yn cael eu clywed.

Anogwyd y cyfranogwyr i ffurfio rhyw fath o grŵp ar gyfer cyfnod y prosiect, ac roedd natur hyn yn ymatebol i amodau lleol, a hynny'n fwriadol. Gallai grŵp llywio sefydlog weithio mewn rhai cyd-destunau ond, mewn gwirionedd, mae hyn yn debygol o fod yn grŵp rhanddeiliaid *ad hoc* neu grwpiau gorchwyl a gorffen sydd â diddordeb mewn gwahanol agweddau ar yr ymchwil. Bydd amser ychwanegol (pe bai'r prosiect yn cael ei gynnal am 12 mis yn hytrach na 9 mewn gwirionedd) hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran sut y bydd y grwpiau llywio hyn yn ymddangos ac yn datblygu dros gyfnod y prosiect.

Mae ymgysylltu ag amrywiaeth o oedolion sydd â gwybodaeth wahanol yn hanfodol o ran meithrin syniad o sut y mae mannau yn gweithio ar gyfer cyfleoedd chwarae plant a hefyd ymdeimlad o hanes arferion gofodol cymdogaethau. Un enghraifft oedd lle y daeth anghydfod tir hirdymor yn berthnasol o ran ei effaith ar fynediad plant i fan ar gyfer chwarae. Enghraifft arall oedd lle'r oedd newid ym mherchnogaeth tir wedi cau man yr oedd y tirfeddiannwr blaenorol wedi'i neilltuo'n benodol i blant chwarae ynddo. Ceir trydedd enghraifft lle'r oedd hanes o ymdrechion i adfywio ardal wedi cael ychydig iawn o effaith ar ymdeimlad pobl o ddiogelwch y gymdogaeth.

### Gweithio ar draws proffesiynau

Yn ogystal â phobl leol, roedd angen i'r cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol weithio hefyd gyda'r gweithwyr proffesiynol o'r awdurdodau lleol a allai helpu i gynghori ynghylch yr argymhellion a'u gweithredu. Oherwydd yr hanes o weithio ar draws proffesiynau fel rhan o'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, roedd gan y cyfranogwyr eisoes berthynas dda â rhai o'r swyddogion, ac roedd eu doethineb yn werthfawr o ran elfennau ymarferol gweithredu'r cynlluniau gweithredu. Er na ystyriwyd bod y bobl hyn yn gyfranogwyr ymchwil sylfaenol, roedd eu doethineb a'u gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth hanesyddol, yn bwysig o ran pa gamau a oedd yn ymarferol a sut y gellid eu datblygu.

## Cyfiawnder gofodol

Bu i gyd-ddoethineb y plant a'r oedolion amlygu'r anghyfiawnder gofodol sylfaenol ar gyfer plant. Chwaraeodd yr archwiliadau gofodol hefyd ran allweddol mewn gwneud anghyfiawnderau o'r fath yn weledol ac roeddent o werth mawr i gyfranogwyr y naill awdurdod lleol a'r llall. Cynhaliwyd yr archwiliadau gofodol mewn dwy ran: yn gyntaf, edrychodd cyfranogwyr yr awdurdodau lleol a'r mentoriaid ar y gymdogaeth ar Google Maps, gan gynnwys defnyddio *streetview*, fel bod ganddynt sail ar gyfer deall yr hyn yr oedd pobl yn siarad amdano mewn grwpiau ffocws. Yna, ar ôl cynnal y grwpiau ffocws gydag oedolion a phlant, cerddodd y mentoriaid a'r cyfranogwyr o gwmpas y gymdogaeth gyda'i gilydd (gan gynnwys ymgyrchwyr lleol mewn un awdurdod) a thynnu lluniau.

> Dyma pryd y teimlais fod pob dim yn dod ynghyd a bod pethau'n dod yn gliriach, a gallwn ni weld yr hyn yr oedd y plant yn ei ddweud pan oeddent yn sôn am ardaloedd a phroblemau penodol. Roeddem yn gallu ei weld yn uniongyrchol.

Er bod y manylion yn wahanol, nodwyd problemau o ran defnydd tir a oedd yn cyfyngu ar allu plant i chwarae yn yr awyr agored yn y ddau awdurdod lleol a gymerodd ran. Yn un o'r cymdogaethau, roedd lefelau parhaus ac uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ysbwriel a baw ci, ynghyd â'r defnydd cyhoeddus hollbresennol o gyffuriau ac alcohol, yn creu awyrgylch o ofn a oedd yn atal plant ifanc rhag chwarae yn yr awyr agored. Yn ogystal, soniodd rhai o'r plant hŷn a gymerodd ran yn yr ymchwil am gymryd rhan yn y diwylliant bygythiol (er ei bod yn bosibl y gellid ystyried ymddygiad o'r fath yn chwarae).



Pan wnaethom gerdded o amgylch y gymuned, nid wyf yn gor-ddweud pan ddywedaf fod tua 50 o boteli o wirodydd wedi'u gadael o gwmpas mainc. Roedd maint y sbwriel yn frawychus.

Mewn cymdogaethau eraill, y broblem allweddol oedd y diffyg lle yr oedd gan blant ganiatâd i gael mynediad iddo i chwarae, yn enwedig plant hŷn. Dangosodd yr archwiliad gofodol dystiolaeth o blant yn chwarae mewn rhai mannau y mae mae mynediad i'r cyhoedd wedi'i gyfyngu'n swyddogol. Yr ysgol uwchradd leol sy'n berchen ar y man agored mwyaf: “Pan edrychwch ar y map, cae yr ysgol yw'r ardal fwyaf yn y gymuned honno ac nid oes rhyddid iddyn nhw ei ddefnyddio.” Yma, bu hanes o ganiatâd anffurfiol, ond bellach roedd y gofalwr yn ceryddu'r plant am chwarae yno. Roedd darn mawr arall o dir y gellid ei ddefnyddio i chwarae arno yn destun dadl ynghylch tir sy'n gysylltiedig ag adeiladu ystâd o dai a dyraniad arian Adran 106. Roedd hanes hir iawn i'r ddadl hon ac roedd ei datrys, ynghyd â negodi mynediad i'r cyhoedd i dir yr ysgol, yn gam gweithredu allweddol a ddeilliodd o'r ymchwil hwn.

Yr hyn sy'n amlwg o ganfyddiadau'r ymchwil yw pa mor anaml y codwyd traffig. Mewn ymchwil mwy cyffredinol, nodwyd traffig (traffig sy'n symud a thraffig llonydd) fel y cyfyngiad mwyaf ar allu plant i chwarae yn yr awyr agored (Russell *et al.,* 2024). Yn un o'r awdurdodau a gymerodd ran, dangosodd yr archwiliad gofodol sut yr oedd y pentref wedi'i dorri yn ei hanner gan brif ffordd gyda dim ond ychydig o fannau croesi diogel, ac felly nodwyd camau gostegu traffig yn un rhan o'r cynllun gweithredu. Fodd bynnag, ni thrafodwyd y traffig fel prif bryder gan y plant na'r oedolion; yn hytrach, roedd y blaenoriaethau a nodwyd yn ymwneud â chaniatâd i'r plant ddefnyddio'r lleoliad. Mewn cymdogaethau eraill, roedd dyluniad y stad o dai yn eithaf cefnogol o symudiad diogel, gyda nifer o lwybrau i gerddwyr yn cysylltu mannau agored niferus. Yma eto, ni chafwyd llawer o sôn am draffig, gan fod ofn troseddau, trais, bygythiad ac ysbwriel yn peri llawer mwy o bryder.

Mae hyn yn dangos pwysigrwydd manylion y gellir eu datgelu drwy waith ymchwil lleol iawn a gall hynny fod yn sail i ymatebion lleol: gall nodi'r hyn sy'n bwysig i'r plant hyn yn y fan honno ar yr amser hwnno.

## Cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd

Bu'r prosesau cysylltiedig cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd yn offer cysyniadol defnyddiol ar gyfer pedair astudiaeth ymchwil ar y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i Blant (Lester a Russell, 2012; 2013; Russell *et al.,* 2019, 2020) ac mewn gwaith arall sy'n ymwneud â digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Mae atebolrwydd yn cyfeirio at ddatblygu'r capasiti i ddarparu cofnodion dilys o gyfleoedd chwarae plant; mae ymatebolrwydd yn ymwneud â'r capasiti i fod yn ymatebol i'r cofnodion hynny mewn ffyrdd a fydd yn gwella'r cyfleoedd i chwarae. Mae'r prosesau hyn hefyd yn gweithio'n dda o ran archwilio rhai o'r materion a gododd drwy gydol yr astudiaeth hon, gan gynnwys prosesau ymchwil anunionlin a

chydberthnasol dylunio, moeseg, recriwtio, cynhyrchu data, dadansoddi data, adrodd a chamau gweithredu.

Fel rhan o'u gwaith ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, roedd y cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol wedi cynnal amrywiaeth o ymgynghoriadau blaenorol â phlant a chymunedau, ac fe wnaethom archwilio o'r dechrau pa wahaniaeth allai fod rhwng y gwaith ymgynghori a'r gwaith ymchwil. Yn y trafodaethau cynnar, ystyriwyd bod yr ymchwil wedi'i hysgogi'n fwy gan ddamcaniaethau ac roedd angen gweithdrefnau mwy strwythuredig ar ei chyfer, er enghraifft, caniatâd neu waith dadansoddi. Fel y datblygodd yr ymchwil, daeth y trafodaethau hyn yn ddyfnach, yn fwy eang ac yn fwy cynnil. Rhoddir blas o hyn yng ngweddill y ddogfen.

## Moeseg ddeinamig

Fel rhan o'r broses gynllunio, archwiliodd y cyfranogwyr sut y gallent ymateb i broblemau moesegol sy'n codi o'r gwaith ymchwil, er enghraifft, beth y byddent yn ei wneud pe bai'r gwaith ymchwil yn datgelu arferion anniogel neu anghyfreithlon (weithiau, cyfeirir at hyn fel cyfyng-gyngor moesegol gwybodaeth euog). Yn gyffredinol, nid oes gan awdurdodau lleol systemau ar waith ar gyfer cefnogi staff fel ymchwilwyr mewn sefyllfa o'r fath. Disgrifiodd y mentoriaid y broses o ddatblygu asesiad o'r risgiau a'r manteision, sef dull gweithredu sy'n gyfarwydd i'r rheini yn y sector gwaith chwarae. Yma, trafodwyd manteision yr ymchwil, y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â hynny a sut y gallent fynd i'r afael â nhw. Trafodwyd materion safonol fel cydsyniad a diogelu data, ochr yn ochr â chwestiynau mwy cymhleth. Gweithiodd y broses yn dda a chaniataodd ymatebion ar ffurf deialog i faterion cymhleth.

Daeth yn amlwg yn gynnar yn y broses bod elfen o gyfiawnder yn rhedeg drwy'r gwaith ymchwil. Dewiswyd y ddwy gymdogaeth yn rhannol oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn rhai lle'r oedd gallu plant i chwarae yn yr awyr agored wedi'i gyfyngu am sawl rheswm, sy'n bennaf yn ymwneud â chyfiawnder/anghyfiawnder gofodol (gweler yr adran isod). O gofio hyn, roedd yr elfen foesegol yn dibynnu fwyaf ar gyfrif-oldeb ac atebol-rwydd dilys i'r plant sy'n cymryd rhan a'r plant eraill yn y gymdogaeth.

> Ni allwch ddod i wybod am y pethau hyn a pheidio â gwneud dim yn eu cylch. Ac mae angen ymateb sylweddol iddynt.

## Swyddogion awdurdodau lleol fel ymchwilwyr: archwilio safbwynt

Mae ymateb i anghyfiawnderau gofodol i blant yn dod yn gymhleth pan mai'r swyddogion o'r awdurdodau lleol sy'n cynnal y gwaith ymchwil. Mae'n bosibl, ac yn debygol hyd yn oed, y gellid dadansoddi bod yr ymchwil a'r camau gweithredu a nodwyd yn datgelu methiannau'r awdurdodau lleol a/neu'n rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i gymryd camau. Fel y dywedodd un o'r mentoriaid, "Ceir tensiwn rhwng bod yn ymchwilydd da ac yn swyddog awdurdod lleol da".

Yn y naill awdurdod a'r llall, roedd y ffaith bod arolygon ar-lein yn gorfforedig yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdodau lleol fynd drwy weithdrefnau biwrocrataidd i gael caniatâd i gynnal yr arolwg a defnyddio dyluniad corfforaethol yn hytrach na dyluniad sy'n gyfeillgar i blant ar gyfer yr arolwg. Mynnodd un awdurdod hefyd y dylid ychwanegu cwestiynau corfforaethol generig ar ddiwedd yr arolwg, a defnyddiodd nifer o'r oedolion a ymatebodd i'r arolwg y rhain i ymosod ar yr awdurdod.

Er y nodwyd y tensiwn posibl hwn gan y tîm ymchwil craidd, ymddengys ei fod yn llai o broblem i'r cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol, a oedd yn uniaethu'n amlwg â'r cymunedau yr oeddent yn ymchwilio iddynt. Dywedodd un ohonynt,

> Os oes angen newid rhywbeth, hoffwn feddwl y gallem gefnogi pobl i wneud y newid hwnnw, boed hynny y tu mewn neu'r tu allan i'r awdurdod lleol.

Dywedodd un o'r mentoriaid am bob un o'r pedwar cyfranogwr o'r awdurdodau lleol,

> Rydych yn cael eich hun yn y man canol hwnnw rhwng y preswylwyr nad ydynt eisiau dadlau gyda chi oherwydd eich bod yn dod o'r Cyngor ond hefyd swyddogion y Cyngor sy'n teimlo y gallant ymddiried ynoch i gael y sgwrs honno.

Ar gyfer rhai o'r cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol, roedd ychydig o hyn yn seiliedig ar brofiad hirdymor gwaith chwarae cymunedol a'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sydd wedi mynd â nhw i mewn i gymunedau ac wedi creu amodau ar gyfer meithrin rhwydweithiau a pherthnasoedd da ar draws yr awdurdod lleol, sy'n caniatáu ar gyfer yr hyn y gwnaethant ei alw'n "sgyrsiau gonest". Mae hyn yn dangos hynodrwydd sgiliau a phrofiad y bobl o'r ddau awdurdod lleol a gymerodd ran ac ni ellir cymryd hyn yn ganiataol ar gyfer prosiectau mentora yn y dyfodol.

Yn un o'r awdurdodau, penderfynodd y swyddogion a gymerodd ran siarad ar wahân â'r swyddogion perthnasol unigol o'r adrannau eraill ynghylch y materion a'r camau gweithredu sy'n dod i'r amlwg o'r ymchwil ac yna i gwrdd eto gyda'r grŵp o ymgyrchwyr lleol i fwydo'n ôl iddynt, gan chwarae rhyw fath o rôl gyfryngu. Heb hyn, roeddent yn teimlo y byddai'r ymgyrchwyr lleol wedi canolbwyntio yn yr anawsterau hirsefydlog (os ydynt yn berthnasol) a gawsant gyda'r cyngor yn hytrach na'r problemau'n ymwneud â digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Roedd y dull cyfryngol hwn yn golygu bod cyfarfodydd dilynol ar y cyd yn fwy tebygol o allu canolbwyntio mwy ar y cynllun gweithredu digonolrwydd cyfleoedd chwarae mewn cymdogaethau.


Roedd cyfranogwr arall yn hyderus wrth gyflwyno canfyddiadau'r ymchwil a oedd yn feirniadol o'r camau a gymerwyd gan un cynghorwr a oedd wedi ymgyrchu'n bersonol dros barc i gŵn a oedd wedi'i leoli drws nesaf i faes chwarae plant, gan beri problemau i ddefnyddwyr y maes chwarae.

### Camau gweithredu: atebol-rwydd

Nid yw cyfrif-oldeb ac atebol-rwydd yn elfennau ar wahân neu ddilyniannol ond maent yn hysbysu ei gilydd mewn ffordd barhaus. Er enghraifft, pan ddywedwyd wrth gynghorwr lleol a oedd yn cymryd rhan fel cyfranogwr bod y ffaith bod giatiau'r maes chwarae wedi'u cloi'n barhaol yn broblem, roedd yn gallu mynd i'r afael â'r mater ar unwaith. Ar yr un pryd, nododd y cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol a'r mentoriaid yn aml nad oedd y gwaith o gynhyrchu'r data'n dod i ben ar ôl i'r gwaith o ddadansoddi'r data a chynllunio'r camau gweithredu ddechrau: roedd y prosesau diweddarach hyn hefyd yn ymwneud â datblygu cyfrif-oldeb parhaus o ran sut yr oedd y mannau'n cael eu defnyddio. Er hynny, er hwylustod o ran cyflwyno'r wybodaeth, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y camau gweithredu a nodwyd o'r ymchwil.

Yn y gymdogaeth ble yr oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bla, roedd ymdeimlad amlwg o anobaith a diymadferthedd ymhlith y cyfranogwyr cymunedol, a'r farn na allai dim ond presenoldeb parhaus yr heddlu leddfu'r ofnau ynghylch diogelwch. Drwy drafodaeth, a

chydnabyddiaeth o werth presenoldeb cyson sy'n gefnogol ac yn canolbwyntio ar chwarae yn hytrach na phresenoldeb cywirol, daeth hwn yn argymhelliad i gael gweithiwr datblygu cyfleoedd chwarae cymunedol yn gweithio o leoliad tebyg i gynhwysydd llong i ymgysylltu a meithrin ymddiriedaeth â'r holl gymuned ac i gyflwyno arferion gofodol a oedd yn cefnogi chwarae i blant o bob oedran. Roedd y mentor wedi gallu rhannu enghreifftiau o lle'r oedd rôl o'r fath wedi newid a chynnal yn sylweddol ddiwylliant cymdogaeth i fod yn un a oedd yn cefnogi plant i chwarae yn yr awyr agored. Yn ogystal â bod yn bresenoldeb cyson pan fo plant yn chwarae yn yr awyr agored, byddai'r gweithiwr hefyd yn gweithio gyda'r gymuned ar brosiect i harddu'r gymdogaeth (glanhau, plannu a gosodiadau) a datblygu rhwydwaith o fannau chwarae hawdd eu cadw. Trafodwyd a fyddai darparu adnodd o'r fath yn cael ei gefnogi'n llawn gan y cyngor yn ystod sesiwn fyfyrio. Roedd peth pryder y gallai realiti adnoddau cyfyngedig ynghyd â diffyg dealltwriaeth o'r rôl datblygu cyfleoedd chwarae cymunedol olygu y bydd dwyster, cysondeb ac agosatrwydd y presenoldeb sydd ei angen, ynghyd â'r dull gweithredu, yn cael eu gwanhau.




Datblygodd y gymdogaeth arall ddwy elfen yn ei chynllun gweithredu, gan eu trefnu yn gamau gweithredu uniongyrchol, tymor canolig a hirdymor. Roedd un yn canolbwyntio ar fynediad â chaniatâd i fannau, gan gynnwys yr ysgol a'r ddadl barhaus ynghylch tir ar y stâd o dai. Roedd y llall yn ymweud â gweithredu cymunedol, gan gynnwys digwyddiadau cymunedol, glanhau a sicrhau cyllid ar gyfer clwb ieuenctid lleol. Mae'r awdurdod lleol hwn wedi sefydlu cyfarfodydd bob dau fis gyda'r grŵp lleol o weithredwyr i'w cefnogi i gyflawni'r cynllun gweithredu. Roedd y cynlluniau tymor hwy yn cynnwys datblygu mannau chwarae a darpariaeth wedi'i goruchwylio o bosibl.



## Sylwadau ac ystyriaethau i gloi ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol

Bu'r prosiect mentora'n llwyddiant, yn yr ystyr bod y ddau awdurdod a gymerodd ran wedi cwblhau'r rhaglen fonitro ac mae ganddynt bellach gynllun gweithredu ar gyfer y cymdogaethau a nodwyd ganddynt yn ogystal â'r sgiliau a'r wybodaeth i ailadrodd y rhaglen mewn cymdogaethau eraill. Cafodd y rhaglen ei gwerthfawrogi'n fawr gan gyfranogwyr yr awdurdodau lleol. Daeth pawb a gymerodd ran, y mentoriaid a'r cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol fel ei gilydd, ag arbenigedd, sgiliau a phrofiad er mwyn ymgysylltu'n llawn â'r broses a'r cymunedau. Roedd y materion a godwyd gan y rhaglen beilot yn cynnwys y rheini a oedd yn ymwneud yn benodol â'r cyd-destunau a'r rhai y gellid eu cyffredinoli ar gyfer prosiectau mentora eraill yn y dyfodol. Rhoddir crynodeb o'r ystyriaethau ar gyfer prosiectau yn y dyfodol isod.

- Mae amserlen 12 mis yn ymarferol.
- Byddai mwy o amser paratoi ar gyfer y grwpiau ffocws yn ddefnyddiol o ran recriwtio cyfranogwyr.
- Mae cael amser rhwng yr arolwg a'r grwpiau ffocws yn golygu bod modd cysylltu â'r rhai a ymatebodd i'r arolwg sydd â diddordeb mewn bod yn y grŵp ffocws.
- Mae cael bloc o amser wedi'i neilltuo i gasglu data a'i dadansoddi yn gweithio'n dda oherwydd manteision trochi. Mae'n helpu i gael amser hir ymlaen llaw i gynllunio ar gyfer neilltuo wythnos gyfan. Cydnabyddir ei bod yn bosibl na fydd rhai staff digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn gallu ymrwymo i gyfnod mor ddwys o amser.
- Mae cael dau unigolyn yn rhan o'r gwaith o ddadansoddi data, sy'n gallu rhannu syniadau â'i gilydd, yn gweithio'n dda.
- Yn dibynnu ar sgiliau ac arbenigedd y cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol mewn rhaglenni yn y dyfodol, gellir negodi ychydig ynghylch y defnydd gorau o amser y mentoriaid. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai yn hyderus i gynnal gweithdai creadigol gyda phlant ond byddant eisiau mwy o amser i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi'r data.
- Mae'n bosibl y gellid cael adnoddau ychwanegol mewn e-becyn i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi data.
- Ychwanegu troednodyn i bob tudalen o'r e-becyn yn egluro bod y pecyn wedi'i ddatblygu gan Ludicology fel rhan o raglen beilot a ariannwyd gan Brifysgol Swydd Gaerloyw a'i fod wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio fel rhan o brosiect mentora, ac nid fel pecyn cymorth annibynnol.
- Mae angen i'r gwaith o sefydlu grŵp neu grwpiau o bobl sy'n rhan o'r ymchwil fod yn briodol ym mhob cyd-destun. Gall hwn fod yn grŵp llywio, neu gallai fod yn grwpiau rhanddeiliaid gwahanol neu grwpiau gorchwyl a gorffen yn yr un modd. Mae angen hyblygrwydd ar gyfer hyn eto yn y dull mentora, sy'n caniatáu amser a lle ar gyfer grwpiau o'r fath i ymddangos a datblygu drwy gydol y broses.

Mehefin 2024

## Cyfeiriadau

Lester, S. a Russell, W. (2013) *Welingtons Croen Llewpard, Het Silc a Phiben Sugnwr Llwch: Dadansoddiad o ddyletswydd Asesiad Digonolrwydd Chwarae Cymru*, Caerdydd: Chwarae Cymru.

Lester, S. a Russell, W. (2014) *Towards Securing Sufficient Play Opportunities: A short study into the preparation undertaken for the commencement of the second part of the Welsh Government's Play Sufficiency Duty to secure sufficient play opportunities*, Caerdydd: Chwarae Cymru.

Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019) *Hawl Plant i Chwarae yng Nghymru: Chwe blynedd o straeon a newid ers cychwyn Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Cymru,* Caerdydd: Chwarae Cymru.

Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) *Ei gwneud hi'n bosibl i gyflawni digonolrwydd chwarae: Archwilio'r amodau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd digonol i blant yng Nghymru chwarae*, Caerdydd: Chwarae Cymru.

Russell, W., Barclay, M. a Tawil, B. (2024) *Chwarae a lles: Adolygiad o ymchwil diweddar i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer, gyda ffocws ar Gymru (crynodeb),* Caerdydd: Chwarae Cymru.

Mae'r holl adroddiadau hyn ar gael ym: https://chwarae.cymru/polisi-chwarae/ein-hymchwil/